# Castell y Mis:



## Castell Caerffili

Roedd Torth Sinsir Ganoloesol yn wahanol iawn i’r fersiwn fodern, roedd yn fwy fel losinen ac roedd pobl yn ei fwyta fel danteithion. Câi ei fowldio i nifer o siapiau hyfryd mewn amrywiaeth o lywiau cyn cael ei gyflwyno i’r gwesteion. Roedd hefyd yn cael ei fwyta gan bobl gyfoethog gan ei fod yn cynnwys nifer o sbeisiau drud na allai ond pobl gyfoethog eu fforddio.

Ewch ati i ddilyn y rysait (tudalen nesaf) ar gyfer creu torth sinsir gyflym.





# TORTH SINSIR GYFLYM

**Ar gyfer plant sydd eisiau trochi eu dwylo, dyma rysáit Torth Sinsir ganoloesol sydd ddim angen ei choginio iddyn nhw roi tro arni.**

Roedd Torth Sinsir Ganoloesol yn wahanol iawn i'r fersiwn fodern, roedd yn fwy fel losinen ac roedd pobl yn ei fwyta fel danteithion. Câi ei fowldio i nifer o siapiau hyfryd mewn amrywiaeth o lywiau cyn cael ei gyflwyno i'r gwesteion. Roedd hefyd yn cael ei fwyta gan bobl gyfoethog gan ei fod yn cynnwys nifer o sbeisiau drud na allai ond pobl gyfoethog eu fforddio.

**Cynhwysion:**

Cwpanaid o ddŵr mêl cynnes (gweler isod)
3 llwy fwrdd o fêl
Cwpanaid o friwsion bara
Pinsiad o sinsir mâl
Pinsiad o sinamon



**Dull:**

- Arllwyswch y dŵr mêl i mewn i fowlen gymysgu.
- Trowch i mewn yn gyflym y tair llwy fwrdd o fêl.
- Ychwanegwch y sbeisiau sinsir a sinamon a chymysgwch.
- Trowch i mewn y briwsion bara fesul llond llwy bwdin.
- Cariwch ymlaen nes bod gennych does gludiog y gellir ei fowldio'n beli.
- Cymrwch beli bychan o'r gymysgedd a defnyddio'ch dwylo i'w mowldio i mewn i sgwariau, cylchoedd neu hirsgwariau sydd tua 5cm i drwch.
- Rhowch y siapiau ar bapur coginio neu mewn casys cacennau.
- Gadewch nhw i sefyll am o leiaf 10 munud tra'ch bod chi'n clirio.
- Ysgeintiwch â sinamon a'u gweini.

**Rydych wedi creu'ch melysfwyd canoloesol.**



# Cwis yr Wythnos: 28.02.2022

1. Beth yw cyfanswm cost cit rygbi cartref (21/22) oedolyn? (crys, siorts, sanau)

2. Beth yw cyfanswm cost cit rygbi cartref (21/22) plentyn? (crys, siorts, sanau)

3. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cost cit oedolyn (21/22)a chost cit (21/22) plentyn?





Gwefan Ddefnyddiol





# Chwaraeon y Mis







SWIM WALES
NOFIO CYMRU

## Nofio


Ewch ati i hybu mwy o blant i ddysgu nofio trwy gyfansoddi cân ar gyfer hysbyseb radio. Bydd angen i chi gyfeirio at y pedwar dull o nofio: dull blaen; dull cefn; dull broga; dull pili-pala. Edrychwch ar yr hysbyseb hwn am syniadau.











# Cwis yr Wythnos: 07.03.2022

1. Gwyliwch raglen 'Ffeil'. Beth yw prif stori'r rhaglen?

2. Rhestrwch enw 5 cartŵn sydd ar Stwnsh.

3. Rhestrwch enwau 10 o raglenni Stwnsh. Gosodwch hwy yn nhrefn Yr Wyddor.





Gwefan Ddefnyddiol

# Digwyddiad y Mis:



## Gwyl Dewi

Pererindod Dewi Sant. Cerddwch y pellter o Dŷ-Ddewi i Abertawe yn ystod mis Mawrth. Bydd angen i chi gerdded pellter o 76 milltir neu gerdded am gyfanswm o 24 awr. Cofnodwch y pellter rydych chi'n ei gerdded neu'r amser rydych chi'n cerdded ar y tabl canlynol (cliciwch yma)

# Cwis yr Wythnos:
# 14.03.2022

1. Pa ddinas yw dinas fwyaf newydd Cymru?

2. Sawl Aelod Cynulliad sydd gan Gymru?

3. Faint yw hyd llwybr arfordir Cymru?





# Man aros y Mis:



## Gwesty'r Stradey Park

Mae'n bosibl mwynhau tê prynhawn blasus yng Ngwesty'r Stradey Park yn Llanelli. Ewch ati i ddylunio bwydlen tê prynhawn cynnyrch Cymreig ar gyfer y gwesty. Beth am i chi greu'r tê prynhawn ar gyfer eich teulu?

Ffocws: Ardal Leol

# Cwis yr Wythnos: 28.03.2022

1. Rhestrwch 3 seren enwog sy'n dod o Abertawe.

2. Rhestrwch holl ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg Abertawe.

3. Rhestrwch enw dwy ysgol Gyfun Gymraeg Abertawe.



